Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Dyffryn Iâl**
**Allt Yr Efail**
**Llandegla**
**Wrecsam**
**Sir Ddinbych**
**LL11 3AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Mr Goronwy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Dyffryn Iâl wedi ei lleoli ar ddau safle chwe milltir oddi wrth ei gilydd ym Mryneglwys a Llandegla, sir Ddinbych. Mae'r ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r prosbectws yn ei disgrifio fel ysgol hollol ddwyieithog sydd yn cynnig cyfle i'r plant i astudio trwy un ai'r Gymraeg neu Saesneg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn bennaf ar y safle ym Mryneglwys ac addysgir disgyblion cyfnod allweddol 2 ar safle Llandegla.

Mae'r ysgol mewn ardal gymharol lewyrchus. Caiff plant eu derbyn yn rhan amser yn y tymor yn dilyn eu trydydd pen blwydd ac yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pedwerydd pen blwydd. Saesneg yw iaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae tua 20% yn siarad Cymraeg adref.

Ar hyn o bryd, mae 50 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 11 disgybl o oed meithrin. Mae niferoedd y disgyblion wedi bod yn gymharol gyson tros y pedair blynedd diwethaf.

Mae tua 2% o'r disgyblion â'r hawl ar hyn o bryd i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn llawer is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae 11 o ddisgyblion (22%) wedi eu dynodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dal datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Adeg yr arolygiad, roedd yr ysgol o dan arweinyddiaeth pennaeth dros dro oedd wedi bod yn yr ysgol ers Medi 2011. Mae pennaeth parhaol wedi ei phenodi ar gyfer dechrau tymor yr haf. Addysgir y disgyblion gan bedair athrawes amser llawn ac un athrawes sydd yn gweithio'n rhan amser yn yr ysgol. Mae'r ddwy athrawes yng nghyfnod allweddol 2 ar gytundebau dros dro ac yn newydd i'r ysgol ers Ionawr 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Dyffryn Iâl yn 2011-2012 yn golygu fod y gyllideb yn £7,484 fesul disgybl. Uchafswm y gyllideb fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn sir Ddinbych yw £9,248 a'r isafswm yw £2,719. Ysgol Dyffryn Iâl yw'r pedwerydd o'r 52 o ysgolion cynradd yn sir Ddinbych yn nhermau ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- er bod llawer o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyliedig yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r deilliannau i ddisgyblion mwy galluog cystal ag y gallent fod;
- tra bod llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith Cymraeg, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud y cynnydd angenrheidiol;
- er bod llawer o ddisgyblion, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu i amrediad eang o ddibenion gyda hyder cynyddol, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ac annibynnol yn danddatblygedig;
- fod ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda;
- mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn arwain at safonau da o ran lles y disgyblion;
- yr ethos gofalgar sydd yn amlwg iawn ac yn cael ei adlewyrchu yn holl weithgareddau'r ysgol;
- fod holl aelodau'r staff yn ymroddedig i ddarparu disgyblion gyda'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu; ac
- mae'r ysgol bellach yn ymwneud yn llwyddiannus â'r rhieni a'r gymuned.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol rhagolygon digonol ar gyfer gwelliant oherwydd bod:

- yr ysgol wedi bod trwy gyfnod anodd iawn yn ddiweddar. Yn ystod y cyfnod yma bu nifer o newidiadau yn yr arweinyddiaeth a'r staff addysgu yng nghyfnod allweddol 2;
- y pennaeth dros dro cyfredol wedi dod a sefydlogrwydd ac ymdeimlad o gyfeiriad a phwrpas sydd wedi eu rhannu'n llwyddiannus gyda holl aelodau'r staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion;
- y corff llywodraethu, gaiff ei arwain yn fedrus gan y cadeirydd newydd, bellach yn eglur o'i rolau a'i gyfrifoldebau;
- y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol a'r gweithrediadau cysylltiedig yn ffocysu'n eglur ar wella safonau; ac
- nid yw gwelliannau diweddar eto wedi cael effaith parhaus ar wella deilliannau diwedd cyfnod allweddol.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol

A1 sicrhau fod fwy o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni ar y lefel uwch;

A2 wella medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2;

A3 codi safonau yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2;

A4 sicrhau fod gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 well dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith; ac

A5 adeiladu ar y gwelliant diweddar yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu bydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Mi fydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sydd yn uwch na'r cyfartaledd ac mae gan y rhan fwyaf fedrau cymdeithasol da. Erbyn eu bod yn saith oed, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid oes digon o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel 3 uwch yn y pynciau hyn, o ystyried eu mannau cychwyn da.

Erbyn eu bod yn 11 oed, mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid yw'r deilliannau i ddisgyblion mwy galluog cystal ag y medrant fod.

Mewn gwersi ac mewn trafodaethau, mae llawer o ddisgyblion yn adalw eu dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi dysgu yn y rhan fwyaf o bynciau. Maent yn cymhwyso eu medrau i sefyllfaoedd newydd yn dda, gan ddangos hyder cynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol yn cyflawni'n dda. Maent yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu, eu diddordeb a'u cyrhaeddiad blaenorol. Er bod merched yn gyffredinol yn perfformio'n well na bechgyn yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn Saesneg ar y lefel uwch, mae'r gwahaniaeth yn debyg i'r hyn o fewn y teulu o ysgolion.

Ar draws yr ysgol, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn eglur gyda hyder cynyddol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mynegi eu hunain yn aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud hyn gyda rhugldер a chywirdeb priodol. Mae llawer yn defnyddio mynegiant priodol wrth ddarllen yn uchel ac yn deall y cynnwys yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau darllen ac yn defnyddio amrediad eang o strategaethau effeithiol sydd yn eu galluogi i ddarllen gyda'r rhugldеr a'r ddealltwriaeth briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt wybodaeth gadarn o batrymau a seiniau llythrennau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen amrediad eang o destunau gyda mynegiant da. Mae'r rhai mwy galluog yn siarad yn barod am lyfrau ac awduron maent yn hoffi neu ddim yn hoffi ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gymeriadau a llinell stori. Mae disgyblion mwy galluog yn medru sgimio testun i gael ei ystyr. Mae llawer yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sydd yn casglu gwybodaeth o destun yn hyderus neu sydd yn medru lleoli a defnyddio llyfrau cyfair yn effeithiol i gasglu gwybodaeth yn annibynnol.

Yn gyffredinol, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda. Mae bron yr holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu i ystod eang o ddibenion gyda hyder cynyddol. Mae llawer yn ysgrifennu mewn brawddegau gan ddefnyddio ystod dda o atalnodi yn gywir. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth ffonig da ac yn gwneud ymdrechion synhwyrol i sillafu geiriau cyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa briodol i ysgrifennu mewn amrediad o ffurfiau. Yn gyffredinol, caiff eu hysgrifennu ei strwythuro'n effeithiol. Fodd bynnag,

ychydig o ddisgyblion sydd yn arddangos medrau ysgrifennu estynedig mwy datblygedig yn gyson. Yn gyffredinol, mae medrau llawysgrifen a chyflwyniad llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn wan.

Yn gyffredinol, mae safonau mewn Cymraeg yn ddigonol. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau gan y staff ac yn defnyddio'u medrau iaith Cymraeg gyda hyder cynyddol. Maent yn darllen testunau syml gyda dealltwriaeth ac yn ysgrifennu darnau byr gan ddefnyddio patrymau cyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, er bod llawer o ddisgyblion yn ymateb yn barod ac yn frwdfrydig i'w hathrawon, nid oes ganddynt yr hyder i gychwyn trafodaeth yn y Gymraeg. Mae eu medrau darllen ar lefel sylfaenol a cyfyngedig yw eu medrau ysgrifennu.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach a phwysigrwydd byw'n weithgar. Maent bron i gyd yn mwynhau bywyd ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o'u hysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymroi ac yn talu sylw yn y dosbarth. Maent yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau, gan ddangos parch am safbwyntiau eraill wrth iddynt rannu syniadau. Maent yn awyddus i gefnogi ei gilydd.

Mae holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ynghlwm yn effeithiol wrth gynllunio eu gweithgareddau dysgu ac yn ymwneud yn llwyddiannus wrth gytuno eu targedau eu hunain ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw dealltwriaeth disgyblion o ba mor dda maent yn gwneud a'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella, wedi ei ddatblygu cystal.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Ar 96%, mae presenoldeb yr ysgol yn eithriadol ac yn gyson yn y 25% uchaf o'u gymharu gydag ysgolion tebyg.

Mae'r cyngor ysgol yn fforwm llwyddiannus ac mae disgyblion yn mynegi eu safbwyntiau'n dda. Teimla'r aelodau y caiff eu safbwyntiau eu gwerthfawrogi a bod eu hawgrymiadau a'u penderfyniadau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywyd ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn caffael lefelau da o wybodaeth, profiad a hyder o'u hymwneud yn y gymuned. Mae'r modd mae disgyblion yn yr ysgol yn datblygu fel unigolion crwn a hyderus yn nodwedd gref.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu, oddi fewn a thu allan i'r ysgol sydd yn cynnwys diddordebau disgyblion yn dda. Caiff yr holl ddisgyblion mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys sydd yn diwallu gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn fanwl a thrylwyr iawn ac yn cynnwys yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, er caiff profiadau dysgu eu haddasu'n dda i ddiwallu anghenion grwpiau penodol, nid ydynt bob amser

yn herio'r disgyblion mwy galluog yn ddigonol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau allweddol, cyfathrebu a rhifedd y disgyblion wedi eu hadolygu'n ddiweddar a bellach maent yn darparu ar gyfer gwell dilyniant a datblygiad ym mhrofiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm yn hollol effeithiol.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau iaith Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod yr holl athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol, nid yw profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion o'r iaith. Caiff y Cwricwlwm Cymreig ei hyrwyddo'n dda.

Mae'r ysgol yn llwyddo i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang trwy weithgareddau megis ailgylchu, gofal am yr amgylchedd lleol a'u hastudiaethau o wahanol ddiwylliannau.

### Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae perthnasau da iawn yn yr holl ddosbarthiadau yn hyrwyddo dysgu effeithiol. Defnyddir staff cefnogi yn dda i gefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r holl athrawon yn cynllunio'u gwersi'n dda gydag amcanion clir. Yn gyffredinol, caiff gwersi eu cydweddu'n dda i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw tasgau bob amser yn ddigon heriol i ddiwallu anghenion y disgyblion mwy galluog, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Defnyddia'r holl athrawon amrediad o adnoddau'n effeithiol i gefnogi, cymell a herio disgyblion. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau annibynnol disgyblion. Nid yw'r agwedd hon wedi ei ddatblygu cystal yng nghyfnod allweddol 2.

Ceir system effeithiol ar gyfer asesu a thracio cynnydd disgyblion yn yr holl bynciau a meysydd dysgu ar lefel unigol a grŵp. Mae hyn yn arbennig o drylwyr yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn rhoi adborth llafar da wrth weithio. Yn yr enghreifftiau gorau, mae marcio llyfrau yn effeithiol ac mae sylwadau'n ddefnyddiol wrth gynorthwyo disgyblion i wybod pa mor dda maent yn gwneud a'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae'r adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn dangos yn eglur pa mor dda mae'r disgyblion yn gwneud. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfle i drafod gwaith eu plant gydag aelodau o'r staff.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Rhoddir blaenoriaeth uchel i les ac iechyd y disgyblion. Mae'r trefniadau i annog eu hymglymiad yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach bellach yn nodwedd arbennig o gref yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn nodwedd gref iawn o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth geisio cefnogaeth oddi wrth ystod o asiantaethau allweddol eraill i ddiwallu anghenion disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelwch.

Mae'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff eu hanghenion eu dynodi ar gyfnod cynnar a'u cynnydd ei fonitro'n ofalus. Mae cynlluniau addysgu unigol yn fanwl a llawn gwybodaeth gyda thargedau eglur ar gyfer gwelliant. Darperir cefnogaeth effeithiol, gan gynnwys rhaglenni dal-i-fyny, i grwpiau o ddisgyblion yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel a chynhwysol i'r holl ddisgyblion. Mae ethos gofalgar yn amlwg iawn a chaiff ei adlewyrchu yn holl weithgareddau'r ysgol. Ceir pwyslais eglur ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Er waetha oed yr adeiladau, mae'r ysgol yn darparu amgylchedd ddysgu ysgogol ar y ddau safle gydag arddangosfeydd creadigol a lliwgar o waith y disgyblion. Caiff y ddau safle eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r amgylchedd ddysgu y tu fewn a thu allan ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen o safon uchel iawn. Mae gan yr ysgol cyflenwad da o adnoddau caiff eu defnyddio'n dda i gefnogi'r dysgu. Gwneir defnydd da o'r gymuned i wella'r ddarpariaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod anodd iawn gyda chymaint â thri phennaeth mewn cyfnod cymharol fyr. Mae arweinyddiaeth y pennaeth dros dro wedi dod â sefydlogrwydd ynghyd ag ymdeimlad o gyfeiriad a phwrpas. Mae'n sicrhau caiff yr holl staff a disgyblion eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r disgrifiadau swydd bellach yn eglur ac mae newidiadau diweddar mewn arferion rheolaethol yn rhoi'r gred i'r holl aelodau staff eu bod yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth siapio cyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol.

Ceir dadansoddiad manwl o ddata perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, sydd yn gywir wrth ddynodi pwysigrwydd gwella deilliannau'n yn y meysydd craidd o gyfathrebu, rhifedd a gwyddoniaeth. Mae codi safonau bellach yn ffocws ar gyfer gwelliant ysgol. Fodd bynnag, mae gweithrediadau eto i'w gwireddu'n llawn yn nhermau deilliannau disgyblion.

Mae llawer o'r llywodraethwyr yn newydd ac yn gefnogol iawn o'r pennaeth dros dro. Cânt eu harwain yn fedrus iawn gan y cadeirydd newydd ac maent bellach yn eglur o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn derbyn adroddiadau rheolaidd oddi wrth y pennaeth a chaiff y rhain eu trafod yn ofalus. Maent yn ymwybodol iawn o berfformiad y disgyblion yn saith ac 11 blwydd oed ac o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y dyfodol. Ceir pwyllgorau priodol ac mae strwythurau yn eu lle i gadw trosolwg ar y rheolaeth ariannol, adolygu polisïau a gweithdrefnau ysgol ac i sicrhau y diwellir y gofynion statudol. Fodd bynnag, maent yn gymharol ddiweddar a heb eto gael digon o amser i wreiddio.

Mae camau priodol bellach wedi eu cymryd i ddiwallu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei weithredu'n llwyddiannus iawn. Mae'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm sgiliau yng nghyfnod allweddol 2 bellach mewn lle ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu gallu disgyblion i ddefnyddio eu medrau mewn nifer o bynciau.

### Gwella ansawdd: Digonol

Gwelir hunan arfarniad ysgol a chynllunio ar gyfer gwella bellach fel agwedd bwysig o arfer rheolaethol da. Mae gweithdrefnau hunan arfarnu cyfredol yn datblygu'n dda ond ychydig o dystiolaeth sydd fod hwn wedi bod yn nodwedd reolaidd o arfer yr ysgol yn y gorffennol. Mae'r cyswllt rhwng hunan arfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn eglur. Mae'r adroddiad yn tynnu ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol sydd yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddata, archwilio gwaith disgyblion a siarad gyda'r disgyblion. Bellach ceir dynesiad mwy systematig tuag at fonitro ond nid yw arfarniadau yn ffocysu'n ddigonol ar y camau a gymerwyd a'u heffaith ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae safbwyntiau disgyblion, llywodraethwyr a rhieni bellach yn cael eu hystyried yn ofalus.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sydd yn ffocysu’n eglur ar godi cyflawniad yn y pynciau craidd. Mae wedi ei gostio'n ofalus ac yn cynnwys terfynau amser a meini prawf llwyddiant realistig er mwyn helpu mesur ei effeithiolrwydd. Mae effaith y camau eto i'w gwireddu.

Caiff aelodau staff gyfleoedd da i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol, ceir tystiolaeth dda o hyn yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen llw mae gwelliant yn yr arfer gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r rhieni; teimlant y cânt eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn addysg eu plant. Ceir cysylltiadau cryf gyda'r ddwy gymuned mae'r ysgol yn eu gwasanaethu a gwneir defnydd da o gyfleoedd i wella profiadau dysgu disgyblion trwy ddefnyddio'r amgylchedd lleol.

Mae cysylltiadau gyda'r eglwys leol yn werthfawr ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu addysg ysbrydol a moesol disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda lleoliadau cyn-ysgol lleol ac mae hyn yn paratoi'r ysgol yn dda ar gyfer dechrau yn yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo a gytunwyd gyda'r ysgol uwchradd lleol yn galluogi'r disgyblion hŷn gael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae cymedroli gwaith disgyblion o fewn y clwstwr o ysgolion lleol yn darparu arf priodol i'r athrawon asesu gwaith disgyblion yn fwy effeithiol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r bartneriaeth gyda'r awdurdod lleol wedi galluogi'r ysgol i gael cefnogaeth arweinwyr profiadol i wella'r ddarpariaeth ac i ddarparu sefydlogrwydd a chyfeiriad.

### Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwysedig a staff cefnogi ar y ddau safle sydd wedi eu lleoli'n effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion a gwneir defnydd da o'r staff cefnogi. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ag asesu.

Ceir amrediad da o adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Er bod yr adeiladau ar y ddau safle yn hen, maent yn darparu ystafelloedd addas. Mae'r rheolaeth o ddisgyblion rhwng y ddau safle yn effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda ac yn adolygu gwariant yn gyson. Mae cyfrifoldebau ar gyfer rheoli'r gyllideb yn eglur ac yn gyffredinol, mae penderfyniadau gwariant yn perthnasu'n dda i flaenoriaethu ar gyfer gwelliant.

Er waetha'r nodweddion da cyfredol wrth reoli adnoddau, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian oherwydd nid yw effaith gweithredoedd diweddar i wella safonau eto wedi ei wireddu'n llawn yn nhermau deilliannau disgyblion.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Oherwydd y nifer fechan o ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfod allweddol, mae'n rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion gyda gofal. Gall canlyniad un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

### Cyfnod Allweddol 1

Yn yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni'r lefel disgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyfunol wedi bod yn uwch na'r ffigurau ar gyfer Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae hyn hefyd yn wir am y pynciau hyn yn unigol, yn ychwanegol i ddarllen ac ysgrifennu mewn Saesneg.

O'i meincnodi yn erbyn ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru ar y lefel yma mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd y tu hwnt i'r lefel disgwyliedig mewn unrhyw bwnc yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

### Cyfnod Allweddol 2

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011, cyflawnodd yr holl ddisgyblion y lefel disgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyfunol. Mae perfformiad yn y blynyddoedd cynt wedi amrywio. Mae canran y disgyblion sydd yn cyrraedd y lefel disgwyliedig wedi bod yn uwch na'r ffigurau ar gyfer Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg mewn dwy allan o'r pedair blynedd diwethaf ac yn is yn y ddwy flynedd arall. Ar wahân i 2009/10, mae'r canran sydd yn cyflawni'r lefel disgwyliedig mewn darllen ac ysgrifennu mewn tri o'r pedair blynedd blaenorol wedi bod yn unol â'r ffigurau ar gyfer Cymru a'r teulu o ysgolion.

Yn 2011, o'i meincnodi yn erbyn ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn yr 50% isaf mewn tair o'r pedair blynedd blaenorol ac yn y 25% isaf mewn dwy ohonynt.

Yn 2011, mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y tu hwnt i'r lefel disgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg yn cymharu'n ffafriol gyda'r rhai yn y teulu o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r canran o ddisgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn is na'r ffigurau ar gyfer Cymru a'r teulu o ysgolion yn y blynyddoedd diweddar. Ni wnaeth unrhyw ddisgybl gyflawni'r lefel uwch mewn mathemateg na gwyddoniaeth mewn tri o'r pedair blynedd blaenorol. Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyrraedd y lefel uwch mewn Cymraeg dros y pum mlynedd diwethaf.

O'i meincnodi yn erbyn ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf yng Nghymru ar y lefel hwn mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 1, nid oes unrhyw batrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o'i gymharu gyda'r merched. Yng nghyfnod allweddol 2, er bod merched yn gyffredinol yn perfformio'n well na bechgyn, yn enwedig mewn Saesneg ar y lefel uwch, mae'r gwahaniaeth yn debyg i'r hyn o fewn y teulu o ysgolion.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Nid oes unrhyw sylwadau ar yr holiadur i rieni oherwydd y nifer bychan o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Cwblhawyd yr holiadur gan 30 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Roedd bron yr holl ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn datgan fod yr ysgol yn dda wrth ddelio gydag unrhyw fwlian a bod rhywun ganddynt i siarad â nhw os ydynt yn poeni neu yn drist. Roedd y rhan fwyaf yn credu fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach yn darparu digon o gyfleoedd am ymarfer rheolaidd.

Roedd bron yr holl a ymatebodd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod y staff yn eu helpu i wneud cynnydd ac yn eu cefnogi os oeddent yn cael eu gwaith yn anodd. Roedd llawer yn cytuno fod ganddynt ddigon o lyfrau ac adnoddau a bod y gwaith cartref yn eu helpu i wella.

Roedd gan ychydig o'r disgyblion bryderon am ymddygiad eraill yn ystod amser egwyl ac yn y dosbarth.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Llinos Mary Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Colin Roberts | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.